**CCYSAGauC**
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
**WASACRE**
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru,***
***Rhithwir trwy Zoom***
***19 Mehefin 2023***
**12.00pm – 12.35pm**

DRAFT

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Owen Davies (OD)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Chris Abbas (CA)<br>Hayley Jones (EAS)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Alice Parry (AP)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Marina Chacon-Dawson (MCD)<br>Hayley Jones (EAS)<br><br>**Caerdydd / *Caerdydd***<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Jennifer Harding-Richards (JHR)<br><br>**Ceredigion**<br>Keith Evans<br>Mary Davies<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord (PL)<br>Collette Owen (CO)<br>Ellie Chard (CE) | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord (PL)<br>James Brown (JB)<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Vicky Barlow (VB)<br>Lyn Oakes (LO)<br><br>**Gwynedd**<br>Paul Rowlinson (PR)<br>Eurfryn Davies (ER)<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tudful***<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Louise Brown (LB)<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / Castell- *nedd a Port Talbot***<br>Rachel Samuel (RS)<br>Nia Jenkins (NJ)<br><br>**Casnewydd /*Newport***<br>Huw Stephens (HS)<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Jennifer Harding-Richards (JHR) | **Powys**<br>John Mitson (JM)<br>John Meredith (JME)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Matthew Maidment (MM)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Jennifer Harding-Richards (JHR)<br><br>**Torfaen**<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Bro Morgannwg / *Bro Morgannwg***<br>Kathy Riddick (KR)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Tania ap Siôn ( TaS )<br>Libby Jones (LJ)<br><br>**PYCAG**<br>Paula Webber (PW) | **Cofnodion (o'r recordiad)**<br>Jo Nicholls (JNI) |

**Cofnodion y cyfarfod**

1. **Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar Microsoft TEAMS ar 29 Mehefin 2022**

   Croesawodd TaS bawb i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Cynigiodd RS dderbyn y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022 ac eiliodd HS.

2. **Materion yn Codi**

   Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. **Adroddiad CCYSAGauC ar gyfer 2022-23**

   Cyflwynodd TaS adroddiad CCYSAGauC ar gyfer 2022-2023 ac adroddodd ar y canlynol:

   Bu'n flwyddyn brysur iawn arall i CCYSAGauC gyda'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno ym mis Medi, paratoi ar gyfer y meysydd llafur cytunedig i CGM ac ymgynghoriadau Cymwysterau Cymru.

   Cyfarfu'r Gymdeithas deirgwaith eleni, unwaith bob tymor. Lletywyd cyfarfod yr Hydref gan CYSAG Blaenau Gwent trwy Teams. Lletywyd cyfarfod y Gwanwyn gan CYSAG Sir Benfro trwy Zoom a chaiff y cyfarfod Haf hwn ei letya gan Sir Ddinbych trwy Zoom. Mae CCYSAGauC yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth barhaus CYSAGau a CYSau wrth iddynt gynnal y cyfarfodydd hyn.

   Cyfarfu'r Pwyllgor Gwaith bob tymor hefyd drwy Teams neu Zoom. Roedd gan y Pwyllgor agenda lawn drwy gydol y flwyddyn a oedd yn cynnwys yr eitemau a'r gweithgareddau a ganlyn:

   ⇒ Parhau i ystyried y Cwricwlwm i Gymru ac ymateb i ddatblygiadau yn ymwneud yn uniongyrchol â CGM ac Addysg Grefyddol o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

   ⇒ Parhau i roi cyngor i gefnogi'r Ymgynghorwyr, CYSAGau a CYSau mewn perthynas â'u meysydd llafur cytunedig lleol a threfniadau gweithio ar gyfer CYSAGau a CYSau.

   ⇒ Mae cynrychiolwyr CCYSAGauC o'r Pwyllgor Gwaith gyda chynrychiolydd o PYCAG wedi cyfarfod â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru (LlC) fel rhan o gylch cyfarfodydd rheolaidd a sefydlodd CCYSAGauC gyda LlC.

     Mae'r cyfarfodydd hyn wedi rhoi'r cyfle i ni godi materion lleol sydd o bwys i GYSAGau a CYSau.

     Gofynnodd Llywodraeth Cymru i CCYSAGauC gynnal adolygiad desg anffurfiol o'r maes llafur cytunedig ar gyfer CGM. Cyflawnodd tîm o arbenigwyr CCYSAGauC y dasg ar ran y Pwyllgor Gwaith a chyflwynwyd yr adroddiad ar amser i Lywodraeth Cymru ar 27 Mawrth 2023.

     Mae'r adroddiad hwn yn rhan o ddull cefnogol ehangach a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn ystod camau cynnar cyflwyno'r cwricwlwm. Mae hefyd yn cynnig cyfle gwerthfawr i rannu arfer ledled Cymru yng nghyd-destun penderfyniad lleol a chydweithio dros Gymru.

DRAFT

Cyhoeddwyd y swp cyntaf o’r modiwl Dysgu Proffesiynol gan y brif bartneriaeth dysgu proffesiynol cenedlaethol rhwng Llywodraeth Cymru a CCYSAGC ym mis Mawrth 2023. Roedd yr adnoddau’n cynnwys pum rhestr chwarae ar gyfer penaethiaid, y sector uwchradd, cynradd, blynyddoedd cynnar ac ADY.

Mae gwaith yn parhau ar yr ail a'r trydydd swp o fodiwlau. Daeth y fenter hon i fodolaeth wrth i CCYSAGauC sylweddoli'r angen am Ddysgu Proffesiynol cenedlaethol sylfaenol. Datblygodd CCYSAGauC gynnig cadarn i'w ystyried gan gydweithwyr yn LlC.

Mae LlC wedi sicrhau ansawdd yr holl adnoddau yn drylwyr cyn eu cyhoeddi ar Hwb Llywodraeth Cymru.

⇒ Cyfarfu cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC â sefydliadau amrywiol yng Nghymru a thu hwnt ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn, yn aml gyda chynrychiolydd PYCAG yn bresennol hefyd.

Yng Nghymru mae hyn yn cynnwys cyfarfod Estyn a hefyd cyfarfod gyda'r rhai sy'n gweithio ar y canllawiau i ysgolion i roi sylw i’r gymuned a pherthnasedd y CYS yn hyn.

Roedd cyfarfodydd eraill yn cynnwys y rhai â chanolfannau AG Rhanbarthol a Chyngor AG Cymru a Lloegr. Codwyd cwestiynau am y berthynas rhwng CCYSAGauC a'r sefydliadau a'r effeithiau posibl ar gyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer CGM. Yn ogystal, cafwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr NASACRE i archwilio cysylltiadau yn y dyfodol.

⇒ Mynychodd cynrychiolwyr o Gymdeithas CYSAGau Cymru ddathliad 30 mlynedd a Chyfarfod Blynyddol NASACRE.

⇒ Mae CCYSAGauC wedi parhau i ddarparu fforwm ar gyfer cymorth ac arweiniad ar gyfer ymgynghoriadau cenedlaethol sy'n effeithio ar CGM ac Astudiaethau Crefyddol yng Nghymru. Eleni roedd dau ymgynghoriad Cymwysterau Cymru yn ymwneud â chymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol, a'r cymhwyster llawn a gynigir. Yn nhymor y gwanwyn tanysgrifiodd CCYSAGauC i gyfrif Zoom i alluogi cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Ar ôl archwilio sawl opsiwn, mae CCYSAGauC yn falch o fod mewn sefyllfa i adnewyddu ei ymrwymiad i gyfarfodydd dwyieithog.

⇒ Mae trafodaethau paratoadol wedi cychwyn ar gyfer cynhadledd fawr CCYSAGC ar gyfer CGM mewn partneriaeth â PYCAG.

⇒ Mae CCYSAGauC wedi darparu cyllid i un athro fynychu cynhadledd EFTRE yn Rhufain ym mis Awst 2023.

Cyflwynwyd cyfrifon 2022 -2023 yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol haf 2022:

⇒ Roedd Datganiad Cyfrifon ac adroddiad yn egluro'r wybodaeth a gyflwynwyd. Roedd pob CYSAG a CYS wedi talu eu tanysgrifiadau am y flwyddyn, a nodwyd bod y sefyllfa ariannol yn parhau mewn cyflwr iach. Roedd lefel y cyllid yn gallu ariannu holl weithgareddau CCYSAGauC.

⇒ Roedd incwm yn £7722.90 yn fwy na gwariant

DRAFT

Yng Nghyfarfod Blynyddol haf 2022, etholwyd tri aelod newydd ar gyfer y cyfnod 2022-2025, Vicky Barlow, Sir y Fflint, Matthew Maidment, Rhondda Cynon Taf a Louise Brown, Sir Fynwy. Etholwyd Edward Evans yn Is-Gadeirydd. Cymerodd Tania ap Sion swydd y Cadeirydd a symudodd RS i swydd y cyn Gadeirydd.

⇒ Yng Nghyfarfod Blynyddol yr Haf cymeradwywyd y newidiadau arfaethedig i gyfansoddiad CCYSAGauC.

⇒ Cafwyd cyflwyniadau trwy gydol y flwyddyn gan aelodau CCYSAGauC a PYCAG. Yng Nghyfarfod yr Hydref a letywyd gan Flaenau Gwent, rhoddodd Rachel Samuel a Paula Webber gyflwyniad ar ymgynghoriad Cymwysterau Cymru. Yng nghyfarfod y Gwanwyn a letywyd gan Sir Benfro cawsom gyflwyniad ar Ddysgu Proffesiynol cenedlaethol gan Libby Jones ac yng nghyfarfod yr haf rydym newydd dderbyn cyflwyniad gan Leah Crimes ar arferion sy'n dod i'r amlwg o safbwynt ysgol ffydd.

Diolchodd TaS i bob aelod-GYSAG a CYS am eu hymrwymiad i'r Gymdeithas a'u cefnogaeth. Diolchodd hefyd i aelodau'r Pwyllgor Gwaith am eu gwaith caled parhaus, a hebddynt ni fyddai gweithgareddau CCYSAGauC yn bosibl.

Cadarnhaodd TaS y byddai'r adroddiad hwn, ar ôl y cyfarfod, yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael yn ddwyieithog i'w ddosbarthu ymlaen i GYSAGau / CYS.

**4. Adroddiad y Trysorydd**

Cyflwynodd JM, Trysorydd CCYSAGauC, adroddiad 2022-2023.

Y balans ar ddechrau'r flwyddyn oedd £45,502.79 ac ar ddiwedd y flwyddyn £54,472.23.

Mae CCYSAGauC mewn sefyllfa iach, yn ariannol. Mae CCYSAGauC wedi adeiladu cronfa wrth gefn i allu cynnal cynhadledd sylweddol heb dâl i fynychwyr.

⇒ Cyfanswm derbyniadau = £13,630.66
Prif ffynhonnell incwm yw'r tanysgrifiadau blynyddol. Taliad o £4,250 gan Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth Cymru am waith a wnaed gan CCYSAGauC ar adolygu'r maes llafur cytunedig. Cyrhaeddodd y taliad hwn ar 31 Mawrth a bydd y gwariant ar gyfer y gwaith hwn yn y flwyddyn ariannol ganlynol 2023-2024.

⇒ Ar gyfer 2022-2023 roedd n=3 o daliadau tanysgrifiad o'r flwyddyn flaenorol a oedd yn hwyr ac n=16 o daliadau tanysgrifiad ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae'r taliadau sy'n weddill wedi'u gwneud ond byddant yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn nesaf. Mae pob CYSAG wedi talu eu haelodaeth ar gyfer 2022-2023.

⇒ Cyfanswm gwariant - bu tanwariant o £8969.44. Mae hyn yn artiffisial o uchel oherwydd taliad Llywodraeth Cymru. Gan gymryd y gwaith hwn i ystyriaeth, ffigwr priodol fyddai tanwariant o £4719.44.

⇒ Y prif wariant yw cost cynnal y cyfarfodydd gan gynnwys cyfieithu, cynhyrchu cofnodion a chydlynu ffi yr ysgrifennydd.

Cynigiodd HS fabwysiadu'r datganiad cyfrifon ac eiliodd PW.

Cododd JM y cynnig i'r Pwyllgor Gwaith, oherwydd yr anawsterau ariannol a brofwyd gan Awdurdodau Lleol y byddai'n briodol peidio â chodi'r tanysgrifiad ar gyfer 2023/24. Cefnogwyd argymhelliad JM gan y Pwyllgor Gwaith.

Cynigiodd RS ac eiliodd EC y cynnig y dylid cadw ffi tanysgrifio CCYSAGauC ar £495 ar gyfer 2023/2024

Aeth JS drwy’r treuliau rheolaidd arfaethedig , nid yw'r rhain yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Cynigodd RS ac eiliodd HS. Cytunwyd ar y treuliau rheolaidd.

Cadarnhaodd TaS y bydd yr adroddiad hwn, ar ôl y cyfarfod, yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg a bydd ar gael yn ddwyieithog i'w ddosbarthu ymlaen i GYSAGau a CYS.

Diolchodd TaS i JM am ei waith ymroddedig yn rôl y Trysorydd.

**5. Cynllunio Ariannol CCYSAGauC (2023-2024)**

Mae Swyddogion Gweithredol CCYSAGauC wedi cyfarfod i drafod cynllunio ariannol ar gyfer 2023 a 2024. Cynhaliwyd cyfarfodydd i sefydlu a rhagweld costau rhedeg y dyfodol a'r arian sydd ar gael ar gyfer y buddsoddiad sylweddol yng nghynhadledd CCYSAGauC. Mae'r arian a ddelir gan y Gymdeithas ar gael i ddarparu budd gwirioneddol i'r CYSAGau a'r CYSau sy'n aelodau, a dim ond trwy eu cyfraniadau a'u cefnogaeth ar y cyd y gellir galluogi hyn.

**6. Ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith**

Dywedodd TaS y derbyniwyd tri enwebiad am y ddau le sydd ar gael. Diolchodd TaS i bawb a roddodd eu henwau ymlaen eleni. Ysgrifennydd Cynorthwyol CCYSAGauC, LJ, oedd yn gyfrifol am drefnu'r pleidleisio ar-lein.

Adroddodd LJ fod cyfradd cyfranogiad o 64% yn yr etholiad. Roedd LJ yn falch o gyhoeddi bod Jenny Downes (CYSAG Sir Ddinbych) a chyd-enwebiad Marged Williams a Tyler Saunders (TS) yn cynrychioli Bro Morgannwg yn llwyddiannus a'u bod wedi'u penodi i'r Pwyllgor Gwaith.

Croesawodd TaS y Swyddogion Gweithredol newydd hyn ac mae'n edrych ymlaen at eu gweld yn ymuno â'r cyfarfodydd Gweithredol.

Nid oedd MW na TS yn bresennol yn y cyfarfod.

**GWEITHREDU:** Anfon gwahoddiad i'r tri aelod newydd o’r Pwyllgor Gwaith i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith ar 4 Hydref.

**7. Unrhyw Fater Arall sy'n berthnasol i’r Cyfarfod Blynyddol**



DRAFT

Dim

**8. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Wrecsam fydd yn lletya; mae'r dyddiad i'w gadarnhau.

Diolchodd TaS i CYSAG a CYS Sir Ddinbych am gynnal cyfarfod haf a Chyfarfod Blynyddol y Gymdeithas. Diolchodd TaS hefyd i bawb a fynychodd y cyfarfod ac i'r cyfieithydd am ei gwaith rhagorol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 p.m

DRAFT